# Y Cynllun Asedau Segur: Defnyddio £44m o arian heb ei ddefnyddio i gefnogi Gweithredu Cymunedol

Mae'r papur briffio hwn yn edrych ar y posibilrwydd o droi arian sydd heb ei ddefnyddio o'r Cynllun Asedau Segur i gefnogi Gweithredu Cymunedol yn y tymor byr, a datblygu Cronfa Cyfoeth Cymunedol ar gyfer Cymru yn y tymor hir.

## Y Cynllun Asedau Segur




Mae'r Cynllun Asedau Segur yn defnyddio arian mewn cyfrifon segur, cyfranddaliadau, yswiriant a chronfeydd pensiwn sydd wedi bod yn anweithredol ers o leiaf 15 mlynedd i gefnogi achosion da. Fe wnaeth Senedd y DU basio Deddfwriaeth Asedau Segur yn 2022, gan gytuno i ryddhau £880 miliwn o asedau segur i'w defnyddio at "achosion da". Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn golygu tua £44m i Gymru dros gyfnod o 10-15 mlynedd. O ganlyniad i ehangu'r cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y blaenoriaethau gwario ar gyfer yr arian hwn.

## Cyfyngiadau ar y cyllid

**Ni ellir** defnyddio'r cyllid i gynnig prisiau is neu ddisodli gwariant y llywodraeth, a rhaid ei ddosbarthu i brosiectau sy'n annhebygol o gael eu hariannu gan y llywodraeth neu'r sector cyhoeddus.

## Defnydd posibl o'r cyllid

Mae awydd clir i'r cyllid "barhau i wneud gwahaniaeth go iawn i bobl a chymunedau ledled Cymru."[1] Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddibenion gwario'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n ceisio barn ar bedwar opsiwn posibl: **plant a phobl ifanc, yr argyfyngau hinsawdd a natur, cynhwysiant ariannol, a gweithredu cymunedol.** Mae'r ymgynghoriad yn ceisio deall a oes opsiynau y mae pobl ledled Cymru yn dymuno eu blaenoriaethu. O ystyried natur y cyllid hwn, mae'n hanfodol, yn ogystal ag ystyried y dibenion gwario sy'n cael eu ffafrio, bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y gwahaniaeth y gallai'r cyllid ei wneud i bob un o'r dibenion gwario.

## Pam defnyddio'r cyllid i gefnogi gweithredu cymunedol

**Mae gweithredu cymunedol wedi cael ei gydnabod fel rhywbeth a oedd wedi chwarae rhan hollbwysig yn ystod pandemig COVID-19 a drwy gydol yr argyfwng costau byw parhaus.**[2] Mae cymunedau wedi rhoi camau ar waith i gefnogi pobl leol, oherwydd eu dealltwriaeth o angen lleol a'r ymdeimlad o berchnogaeth sydd ganddynt dros eu hardal leol. Yn aml, y mentrau hyn yw'r rhai na fyddent wedi cael eu darparu na'u hariannu gan y llywodraeth na'r sector cyhoeddus ond sydd, serch hynny, wedi bod yn hanfodol i helpu pobl yn ystod cyfnod anodd iawn.

Mae gweithredu cymunedol yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gwahanol. Mae'n cynnwys chwaraeon, gweithgareddau a chyfleusterau hamdden, gweithgareddau crefyddol, rheoli cyfleusterau lleol, gwella mannau gwyrdd a choetiroedd, yn ogystal â darparu cefnogaeth emosiynol, ariannol neu unrhyw anghenion eraill i ffrindiau a chymdogion, a llawer mwy. Mae llawer o

---

[1] Llywodraeth Cymru, Rhagair Gweinidogol, Dogfen ymgynghori.
[2] Pobl a Gwaith, *Ymatebion cymunedol i Covid; Beth sydd wedi digwydd?* 2021

weithgareddau a mudiadau cymunedol yn creu swyddi ac yn darparu manteision economaidd ehangach. Er ei fod yn amrywiol ei natur, mae'r rhan fwyaf o weithredu cymunedol yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr, er budd y gymuned ac er lles unigolion. Mae hefyd yn ymwneud â'r gweithgareddau y mae pobl eisiau eu gwneud gyda'i gilydd, yn seiliedig ar y syniad bod cymunedau'n mynd ati i helpu eu hunain. Mae'r rhain yn fentrau y mae pobl yn teimlo **y mae angen eu darparu'n** lleol ac yn annibynnol ar y wladwriaeth.

Nid yw presenoldeb gweithredu cymunedol yn unffurf ledled Cymru. Mae gweithredu cymunedol cynaliadwy yn dibynnu ar gymysgedd o bobl – yn gyffredinol, gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu sgiliau a'u hamser yn ddi-dâl er budd eu cymuned – a lleoedd, fel adeiladau, cyfleusterau a mannau lle gall cymunedau gyfarfod, cymdeithasu a darparu cymorth, sy'n amrywio o le i le. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn 2023 yn dangos bod cymunedau sydd â llai o leoedd cyfarfod, sy'n ymgysylltu llai ac sydd â chysylltedd gwaeth, yn profi canlyniadau sylweddol wahanol o'u cymharu â chymunedau sy'n meddu ar fwy o'r asedau hyn.[3] Er mwyn lleihau'r gwahaniaeth amlwg hwn mewn canlyniadau economaidd-gymdeithasol, **mae cyllid tymor hir ar gyfer gweithredu cymunedol nid yn unig yn ddymunol, ond yn angenrheidiol.**

Mae'r adnoddau ar gyfer gweithredu cymunedol yn anghyson; mae ffioedd defnyddwyr, incwm masnachu a chodi arian yn lleol i gyd yn ffactorau pwysig. Mae rhai sefydliadau ychydig yn fwy yn llwyddo i godi arian gan gyllidwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyllid hwn yn ansicr, yn dymor byr ei natur ac yn canolbwyntio ar allbynnau penodol, yn hytrach na rhoi'r rhyddid i grwpiau a sefydliadau wneud yr hyn **y maent yn gwybod a fydd yn gweithio orau yn eu cymunedau ac gyfer y cymunedau hynny.**

Er bod y dulliau gweithredu a'r maint yn wahanol, mae nodau gweithredu cymunedol ac uchelgeisiau polisi eang Llywodraeth Cymru yn debyg o ran lliniaru tlodi, hybu bywydau iachach, cynnal neu wella ansawdd yr amgylchedd lleol, a chreu economïau lleol cryfach. Byddai defnyddio'r Cynllun Asedau Segur i ariannu gweithredu cymunedol yn cyfrannu at yr uchelgeisiau polisi cyffredinol hyn, yn ogystal â darparu mecanwaith i gyflawni nodau'r Polisi Cymunedau newydd. Mae hefyd yn fynegiant pendant o'r 'Pum Ffordd o Weithio' sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai defnyddio'r Cynllun Asedau Segur i ariannu **gweithredu cymunedol fanteisio i'r eithaf ar y ffrwd ariannu sylweddol ond cyfyngedig hon**, y rhagwelir y bydd yn afreolaidd ei natur. Drwy ddiffiniad, mae gweithredu cymunedol yn eang ac yn amrywiol. Gall gwmpasu elfennau o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, neu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, er enghraifft. Mae gweithredu cymunedol hefyd yn ddigon hyblyg i gynnwys gweithgareddau sy'n seiliedig ar le a diddordebau, neu hyd yn oed gyfuniad o'r ddau.

## Pam nawr?

Gyda'r rhan fwyaf o gyllidebau adrannau'r llywodraeth yn wynebu gostyngiadau sylweddol, byddai defnyddio'r Cynllun Asedau Segur i fuddsoddi mewn gweithredu cymunedol yn golygu y gall grwpiau lleol barhau i ddarparu cymorth cyfunol i'r sector cyhoeddus pan fydd eu gwasanaethau, yn ogystal â llawer o ddinasyddion, o dan bwysau difrifol. Mae gweithredu cymunedol yn aml yn cynnwys gweithgareddau ysgafn ac anffurfiol sy'n cael effaith gadarnhaol gydnabyddedig ar lesiant cymunedol ac unigol.

[3] YAC, *Cymunedau cydnerth: wynebu'r her o fod ar yr ymylon*, 2023.

Dylid defnyddio'r Cyllun Asedau Segur i ddatblygu pecyn o gyllid hyblyg, tymor hir sydd â'r nod o gefnogi mudiadau a gweithredu cymunedol. Yn ei dro, mae hyn yn darparu mecanwaith i gefnogi'r Polisi Cymunedau sy'n cael ei ddatblygu, sydd â'r weledigaeth o gymunedau ffyniannus, cymunedau wedi'u grymuso a chymunedau cysylltiedig. Gall defnyddio'r Cynllun Asedau Segur i ariannu gweithredu cymunedol hefyd symleiddio'r gwaith o ddatblygu Cronfa Cyfoeth Cymunedol ar gyfer Cymru, gweledigaeth gyda chefnogaeth eang a thraws-bleidiol.

## Beth yw Cronfa Cyfoeth Cymunedol?

Mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, a llawer o grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill, eisiau gweld y Cynllun Asedau Segur yn cael ei ddefnyddio i greu model cyllido newydd, ac rydym wedi cyfeirio ato o'r blaen fel **Cronfa Cyfoeth Cymunedol.** Rydym yn defnyddio'r term hwn i ddisgrifio **pecyn o gyllid hyblyg, tymor hir sydd wedi'i anelu at gefnogi mudiadau a gweithredu cymunedol.**

Byddai model sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn yn rhoi sicrwydd i grwpiau a mudiadau cymunedol i gynllunio a darparu gweithgareddau cymunedol cynaliadwy ar draws y wlad. Byddai hefyd yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, o ystyried y ffordd y mae grwpiau a sefydliadau cymunedol wedi ymateb i'r argyfwng Costau Byw, mae datblygu pecyn o gyllid hyblyg, tymor hir yn hanfodol, er mwyn galluogi gweithredu cymunedol i barhau ac i ehangu.

## Cefnogaeth i Gronfa Cyfoeth Cymunedol yng Nghymru




*Map YAC o Asedau Cymunedol yng Nghymru*

Roedd maniffestos Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021 yn cynnig Cronfa Cyfoeth Cymunedol ar gyfer Cymru. Cafodd y cynigion eu llywio gan nifer o drafodaethau a digwyddiadau a gynhaliwyd gyda chymunedau a sefydliadau trydydd sector ledled Cymru ers diwedd 2019.

Yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd, mynegodd Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig eu cefnogaeth i Gronfa Cyfoeth Cymunedol, tra bod Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Cyfoeth Cymunedol fel rhan o'i hymateb i COVID-19 yn y sector gwirfoddol – rhywbeth yr oedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi cytuno arno mewn egwyddor.

Ers 2022 mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau wedi hwyluso gweithgor gydag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, i ddatblygu syniadau ynghylch sut gallai Cronfa Cyfoeth Cymunedol weithio yng Nghymru. Mae'r grŵp yn dymuno gweld arian Cynllun Asedau Segur yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithredu cymunedol yn y tymor byr, ac i ddatblygu cronfa cyfoeth cymunedol ar gyfer Cymru yn y tymor hir. **Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer gweithredu cymunedol sydd o fudd i bobl a chymunedau ledled y wlad, nawr ac yn y dyfodol.**

BCT Building Communities Trust / Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

CPP Caia Park Partnership / PPC Partneriaeth Parc Caia

Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo / Coalfields Regeneration Trust

Community Foundation Wales

cwmpas
For economic and social change
Creu newid economaidd a chymdeithasol

BRO Ffestiniog

CYMUNEDOLI
Cymuned o Gymunedau

CYD Cymru DTA Wales
Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau
Communities Supporting Communities

Faith in Families

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Neath Port Talbot CVS
Castell-Nedd Port Talbot

PARTNERIAETH OGWEN

PLANED

TfC

The Well Being Project Brecon